

**CYMRU
RYDD**

**CYMRU
GYMRAEG**

**CYMRU
SOSIALAIDD**

**GARETH
MEILS**



10c

CYMRU RYDD

CYMRU GYMRAEG

CYMRU SOSIALAIDD

Gareth Meils



CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

CYFLWYNIAID

Wrth gyflwyno'r pamffledyn hwn o waith Gareth Meils i sylw pobl Cymru, carwn egluro nad yw'n ddatganiad o bolisi Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Datganiad o safbwyt personol Gareth a geir yma, a theimlwn fel Senedd fod arnom gyfrifoldeb i sicrhau fod traethodau o'r math yn cael eu dwyn i sylw pobl Cymru.

Aeth deng mlynedd heibio ers pan draddododd Saunders Lewis ei ddarllith "Tynged yr Iaith", a bellach daeth yn amlwg na all protestiadau y chwedegau, ohonynt eu hunain, ddwyna Cymru Gymraeg i fod. Croesffordd yn hanes y Gymdeithas yw'r cyfnod yma, a gyfyd o ddiiffyg sylweddoli bod cysylltiad mewn-fodol rhwng iaith a'r hyn a eilw Gareth yn "seiliau economaidd a gwead cymdeithasol gysefin y gymuned gymdeithasol" y mae'n iaith iddi. Canfyddir gwirionedd hyn o edrych ar unrhyw iaith sydd a'i chenedl yn wladwriaeth sofran. Felly brwydr dros holl dir a phobl Cymru yw'r frwydr dros y Gymraeg.

Rhaid i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg sylweddoli hynny os yw fyth am fod yn rym a wna'r Gymraeg yn iaith holl fywyd Cymru. Geilw hynny am syniad pendant o'r math o gymdeithas y dynunwn i'r gymdeithas Gymraeg fod. I Gareth rhaid iddi fod yn un sosial-iddi.

Ar un olwg y mae'r pamffledyn hwn yn agor y drafodaeth bwysicaf (ers blynyddoedd lawer) yn ein hanes fel Pobl. Anghyfrifoldeb ar ein rhan ni oll fyddai anwybyddu'r problemau enfawr a ysgogodd Gareth i ysgrifennu, oherwydd dibynna tynged y Gymraeg ar ein parodrwydd ni i wynebu'r problemau hyn yn onest a diragfarn. Y cwestiwn gwaelodol yma yw, pa fath gymdeithas yw'r gymdeithas Gymraeg y gweithiwn tuag ati, i fod?

Pleser i mi yw cael cyflwyno'r pamffledyn hwn o eiddo Gareth Meils i ystyriaeth pobl Cymru. Diolchaf i Gareth am ein hysgogi ni i feddwl yn ddyfnach am gwestiwn "achub y Gymraeg" ac hyderaf y darllenir y pamffled gan lawer ac yr esgora ar drafodaeth adeiladol.

Abertawe, Mawrth 1972

Gronw ap Islwyn

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG 1962/72

Y prif reswn pam y sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1962 oedd methiant Plaid Cymru i am-diffyn treftadaeth ddiwylliannol a buddianau materol ein gwlad. Er yr holl ymgyrchu, a'r areithiau ym-flamychol a "digymroedd", methodod y Blaid ag atal Dinas Lerpwl rhag rheibio Cym Tryweryn, a methodod wedyn a gwneud cynydd o unrhyw bwys yn Etholiad Cyffredinol 1959. Gobeithiasai arweinwyr y Blaid y gwobrwyd eu hymddygiad "doeth" a chyfansoddiadol gan bleidleisiau cannoedd o filoedd o'u cyd-wladwyr diolchgar ac un, onid dwy, sedd yn San Steffan. Chwyddwyd eu hyder gan adroddiadau ac erthyglau t wylodrus yn y Wasg Seisnig a chan eu hoptimistiaeth naif eu hunain, ac felly fe'u dadrithiwyd yn dost ddydd y cyrif - dim seddau, cefnogaeth lai o lawer nag a ddisgwylid, a phapurau Saesneg Cymru'n crechwenu'n foddfa uwchben galar y cenedlaetholwyr. Ac yr oedd gweithwyr Lerpwl eisiores yn turio yn y Cwm.

Gwlad ddi-obaith oedd Cymru 1962: cartref cenedl ddiymadferth a welai ei thranc yn agosau heb wneud dim i'w atal heblaw brefu'n hunandosturiol o bryd i'w gilydd. Nid dyna'r darlun cyflawn ychwaith. Yr oedd nifer fechan o genedlaetholwyr hyd a lled y wlad wrthi'n ceisio darganfod neu ddyfeisio dull neu ddulliau o weithredu a'u galluogai, ar yr unfed awr ar ddeg, i ysbrydoli'r Genedl i fynnu byw. Ceid dyrnaid o'r dyrnaid hwnnw yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth pan draddododd Mr. Saunders Lewis ei Darllith Radio ym mis Chwefror, 1962, a gwelsant hwy yn ei argymhellion ef i Blaid Cymru fformwla a roddai iddynt gyfle i wneud rhywbeth amgen dros Gymru na meddwi, malu awyr, canu emynau a dioddef anhwylderau meddyliol.

Gwneud rhywbeth, Gwneud rhywbeth. Dyna'r awydd pennaf. Ond gwelwyd fod Mr. Lewis yn cynnig mwy nag ateb i rai o'n problemau personol: rhoddasai ger ein bron fraslun o strateg a thactegau y gellid eu defnyddio i bigo cydwybod y Cymry, i dynnu

eu sylw at y peryglon a fygythiai einioes eu cenedl, ac i ennill eu cefnogaeth i fudiad agored, democratiaid a phenderfynol a fyddai'n gyfrwng i adfer eu hunan-barch ac i'w hargyhoeddi o werth ymreolaeth.

Cywilyddiem wrth ystyried mai'r Tân yn Llŷn oedd yr unig ergyd o bwys a drawyd dros ryddid Cymru o ddyddiau Glyn Dŵr hyd at ein dyddiau ni, tra bu i'r Gwyddyl wrthryfela o leiaf unwaith ym mhob cenhedaeth. Fe'n hysid gan awydd i wneud rhywfaint o iawn am warth ein llwfrdra oesol. Gwyddem yn reddfyl mai dim ond wrth dorri cyfraith Lloegr y gellid hynny; mai dyna'r unig ffyrdd ddilys i ysgafnau baich cywilyddus ein hanes ryw ychydig ac i fwrrw allan o'n heneddiau beth o ofn cynhenid ein hil. Dangosodd Mr. Lewis inni sut y gallem herio Lloegr mewn modd nad oedd yn amddifad o gyfrifoldeb nac o barch at eraill, ac na fyddai'n peryglu undod y Mudiad Cenedlaethol. Y mae llawer o eironi yn y ffaith mai S. L. yr "adweithiwr", gŵr a gyhuddid gan ei elynion o fod yn "wrth-ddemocrataidd", na honnodd erioed ei fod yn heddychwyr, a'n harweiniodd ni at ddulliau Gandaidd o weithredu, ac nid neb o'r llu edmygwyd a feddai'r proffwyd Indiaidd yn rheng-oedd y cenedlaetholwyr mwy uniongred ar y pryd.

Colli brwydrau fu hanes Cymru ers canrifoeedd: colli brwydrau dros Ryddid, dros ei hawliau a'i chyfreithiau, dros ei thir a thros ei hiaith. Ac yn y cyfnod modern, colli gornestau etholiadol, ac ernesau hefyd, fel arfer. Teimlai sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith ei bod hi'n bryd i Gymru ennill ychydig o frwydrau; gwnai hynny fyd o les i'w hysbryd ac i'w hewyllys i barhau'n genedl. Mynnai rhai beirniaid mai ysgarmesoedd dibwys y bwriadem eu hymladd, nid brwydrau ag iddynt unrhyw arwyddocâd parhaol. Tybiem ninnau mai gwell trechu'r gelyn mewn cyfres o fân wrth-drawiadau na gwneud dim, neu gael crasfa greulon arall mewn rhyfel go-iawn. Nid oedd ein twysogion mwyaf llwyddiannus yn rhy falch i ymladd rhyfel guerrilla.

Ymgyrch i gael llysoedd barn Cymru i gyhoeddi gwyision Cymraeg neu ddwyieithog oedd y gyntaf yr ymgymmerwyd â hi. Cafwyd llwyddiant buan, er i Mr. Elystan Morgan, a oedd ar y pryd yn un o

arweinwyr amlcaf Plaid Cymru, ein sicrhau mai ofer a di-fudd fyddai'n hymdrecigion: "'Rych chi'n bwrw'ch penne'n erbyn wal frics, bois bach," meddai. "Bydd rhaid rhoi Deddf newydd ar y Llyfr Statud yn San Steffan cyn cewch chi wysis yn yr iaith Gymraeg, ac nid drwy protestio mae gwneud hynny." Wel, mae pawb yn cyfeiliorni ambell dro.

Yn ystod y blynnyddoedd nesaf, ymgyrchwyd dros gyflawnder i'r Iaith yn y Llythyrdy, dros gael ffurf-lenni treth-gerbyd, tystysgrifau genedigaethau, priodasau a marwolaethau, a thrwyddedau radio a theledu dwyieithog, a chyda cyd-weithrediad gwerth-fawr Mr. Alwyn D. Rees a'i "bum cant parchus", dros gael disgiau treth-gerbyd dwyieithog.

Bu pob un o'r ymgyrchoedd hyn yn llwyddianus. Y mae'n wir nad aethpwyd â'r maen i'r wal gant y cant ym mhob achos, oherwydd ystyfnigrwydd gwrth-Gymreig gwleidyddion a biwrocratiaid, ond serch hynny, dyrchafwyd statws y Gymraeg yn sylwedol ym mhob maes y mynnodd y Gymdeithas weld hynny'n digwydd. Ym mhob gwrth-daro, ewyllys y Gymdeithas drechodd. Dro ar ôl tro, gorfu i'w gelynnion ildio, a llyncodd nifer o weision y Goron eu geiriau, gan ddatgan, fel arfer, eu bod yn mwynhau'r pryd.

Cewch gredu, os mynnwch, gyda Mr. John Morris, A.S. ac eraill, i'r ddiweddar Lywodraeth Lafur, o'i mawr gariad at Gymru a'r Gymraeg, ychwanegu at urddas swyddogol yr Iaith heb na neb na dim oddi allan iddi ei chymhell. Cewch gredu mai cyd-ddigwyddiad dibwys oedd y ffaith i'r Gymdeithas alw am y pethau hyn ac ymgyrchu drostynt cyn, ac yn ystod, teyrnasiad y Blaid Lafur, ac i nifer o'i haelodau, Geraint Jones a Neil Jenkins yn arbennig, ddioddef erlyniadau a charchar am eu rhan mewn gwahanol ymgyrchoedd. Cewch gredu y buasai Pwyllgor Hughes-Parry wedi cynnal ei ymchwiliad i statws gyfreithiol yr Iaith, a Deddf yr Iaith Gymraeg (1967) wedi ei dodi rhwng cloriau'r Llyfr Statud bendigaid petai Cymdeithas yr Iaith heb fodoli erioed. Os gellwch gredu hyn oll, ni ddylech gael unrhyw anhawster i gredu fod "Elystan yn sosialydd mawr a Wilson yn Gymro glân."

Gwrthwynebodd y Gymdeithas yr Arwisgo. Nid yr Athro Jac L. Williams oedd yr unig genedlaetholwr i'w

beio am hyn, ond yn sicr ddigon ef oedd yr amlycaf i wneud hynny ar goedd. Haerai ef ei bod wedi colli cyfle godidog i ennill cefnogwyr grymus a dylanwadol i achos yr Iaith drwy beidio â mynd i Gaernarfon i dalu gwrogaeth o fab brenhines Lloegr ym mis Gorffennaf 1969. Pan gyll y call.....

Hyd yn oed petaem ni wedi gallu ein gorfodi'n hunain i gyflawni gweithred mor wrthun ag a fynnal'r Athro, faint elwach fyddai Cymru a'r Gymraeg oblegid hynny? Os methodd y dorf o Gymry Da a aeth i'r Syrcas Ymerodrol a pherswadio mawrion Lloegr i gefnogi'r ymdrechion a wneir i achub yr Iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol Gymreig, os methodd y meiri a'r gorseddigion a'r gwleidyddion a'r cerddorion, pa obaith oedd i griw bychan o fandaliaid a ffanaticiaid lwyddo?

Safbwyt y Gymdeithas oedd y safbwyt cywir i genedlaetholwyr. Y mae'r ffait i ddyrnaid fechan o wlatgarwyr herio'r gormeswr ar awr dduaf darostyngiad cenedl yn sicrhau na fydd iddi golli ei hunan-barch yn llwyr, na marw o gywilydd pan wêl ei gwarth. Dyna'r rhan a chwaraewyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg a chan rai cenedlaetholwyr eraill ym mlwyddyn yr Arwiso.

Dychwelodd y Gymdeithas at frwydr yr Iaith pan ffarweliodd Carlo â'i Dywysogaeth. Y ddwy ymgrych y sianelwyd egnion ei haelodau iddynt yn bennaf oedd yr Ymgrych Arwyddion a'r Ymgrych Deledu. Y mae'r gyntaf ymron â'i hennill a'r llall ymhell o'i hennill. Ond y mae'n sicr y gwelir gwelliant sylweddol yn y gwasanaeth teledu a ddarperir ar gyfer Cymru yn ystod y blynnyddoedd nesaf o ganlyniad i ddycnwch a gwrhydri aelodau ifanc y Gymdeithas a pharodrwydd mwy a mwy o aelodau hŷn i wrthod codi trwyddedau teledu.

Ond er pwysiced gwrthwynebu miri'r Prins ac ennill brwydrau dros y Gymraeg, ni chredaf mai'r rhain yw cyfraniadau pwysicaf y Gymdeithas i fywyd ein gwlad. Ei phrif gymwynas, yn ddi-os, fu troi egnion mwy a mwy o Gymru ifaint i gyfeiriadau politicaidd creadigol. Rhoddodd gyfle iddynt weithredu'n herfeiddiol, ond yn ddisgybledig, dros eu hawliau cenedlaethol, a dysgodd iddynt elfennau gwleidydd-

iaeth ymarferol ac arweinyddiaeth ddemocrataidd – pynciau y cawn ni, aelodau o genhedloedd darostyngedig, farciau isel iawn ynddynt fel arfer. Nid yw'r Chwyldro wrth law, ond y mae gan Gymru'r avant-garde chwyldroadol na ellir ei hepgor gan genedl a gais ymreolaeth.

Nid wyf yn honni fod y Gymdeithas yn anffaeledig. Gwnaeth liaws o gamgymeriadau yn ystod y deng mlynedd diwethaf, a cholodd sawl cyfle oblegid syrthni, gwamalrwydd neu flerwch ei swyddogion a'i haelodau, yn enwedig yn ei dyddiau cynnar. Nid oes gennym hawl i ymchwyydo'n hunan-foddhaus ond ni ddylem gywilyddio'n ormodol ychwaith.

CYMRU 1972

Dyna ddigon o sôn am y gorffennol. Ystyriwn yn awr Cymru heddiw; Gymru 1972. Mewn llawer o ffurdd y mae hi'n wlad wahanol iawn i Gymru 1962. Mewn llawer gormod o ffurdd, ysywaeth, y mae'r ddwy'n hynod debyg. Dwysau wnaeth argyfwng ein cenedl yn ystod y deng mlynedd a aeth heibio er pan sefydlwyd y Gymdeithas, er yr oll a gyflawnwyd ganddi hi a chan fudiadau ac unigolion eraill yn y cyfamer. Yn ei Ddarlith Radio, rhybuddiodd Mr. Saunders Lewis ni y gallai tranc yr iaith Gymraeg ddigwydd tua throad y ganrif. Cytunir heddiw, gan genedlaetholwyr a chan elynion Cymru, y pennir ei thynged yn ystod y deng mlynedd nesaf. Erbyn 1982 bydd y genedl Gymreig naill ai'n gwegian ar glogwyn ebargoiant neu'n dechrau ar gyfnod newydd a gobeithiol yn ei hanes. Yn 1962, disgwyliai elynion Cymru iddi drengi heb iddynt orfod ymyrryd fawr ddim. Credent y byddai cerrynt economaidd y dydd, a difrawder y Cymry eu hunain, yn drech na hi. Ond yna, yn annisgwyl ddigon, cafydwyd tipyn o adfywiad cenedlaethol ymhilh y brodorion, ac adgyfnerthwyd y prosesau a'r dylanwadau "naturiol" - di-weithdra, di-boblogi, dylifiad estroniaid i gadarnleoedd y Gymraeg, "datblygiadau" diwydiannol a thrafnidol, rhagleni teledu Eingl-Americanaid bob awr o'r dydd a'r nos, gwasg daeog a gwleidyddion celwyddog - gan ymgrych fwriadol a

phenderfynol i argyhoeddi pobl Cymru unwaith ac am byth mai Prydeinwyr ydynt, ac mai ffanaticiaid drwg a pheryglus ydyw rheini a ddywedant ddim yn groes.

Y mae angen Cymru ar Loegr. Y mae arni angen ein mynyddoedd a'n dyffrynoedd, ein nentydd a'n llynoedd a'n hawyr iach. Y mae gwleidyddion, cynllunwyr a gweision suful Lloegr a'u bryd ar droi ein gwlad - trefedigaeth gyntaf eu gwlad hwy - yn un gwersyll gwyliau anferth at wasanaeth trigolion eu trefi mawr. Bu eu hymdrehchion hyd yn hyn yn hynod lwyddiannus. Cyn bo hir, oni atelir y broses, ni fydd Cymru'n ddim angen na Pharc Cenedlaethol Seisnig, ag ynddo gronfeydd cyfleus o ddŵr a diweithdra trwyadl Gymreig.

Gwn y bydd i lawer o genedlaetholwyr ddadlau fod y darlun hwn o'r Gymru gyfoes yn rhy dywyll. Fe haerant fod gofioth y caiff ein gwlad fesur hel-aeth o ymreolaeth a hawl i edrych ar ôl ei buddiannau ei hun yn ystod y blynnyddoedd nesaf gan fod Plaid Cymru'n llawer cryfach a mwy effeithiol nag oedd hi ddeng mlynedd yn ôl.

Y mae'n wir i nifer y seddi a ymladdwyd gan y Blaid, ynghyd â nifer y pleidleisiau a enillodd, gynyddu'n sylweddol rhwng 1959 a 1970. Y mae'n wir hefyd fod ganddi fwy o swyddogion a gwell peirianwaith nag a feddai ar ddechrau'r chwedegau. Ond faint nes yw hi at ei nod o ennill pob sedd etholiadol yng Nghymru? Neu'r rhan fwyaf ohonynt, hyd yn oed? Gwir y dywedodd Ffred Ffransis fod methiant Llywydd Plaid Cymru i gadw sedd Caerfyrddin yn Etholiad Cyffredinol 1970 yn brawf diymwad o wendid trist asgell boliticaidd y Mudiad Cenedlaethol.

A ellir disgwyl gwell gan y Blaid yn y dyfodol? Ofnaf mai'r un hen stori fydd hi, oni newidia ei pholisiau a'i thactegau: gwleidyddiaeth y gŵyn a'r datganiad yn y cyfnod rhwng etholiadau cyffredinol; sôn hyderus am "dorri trwedd y tro yma" pan ddaw'n amser ymgyrchu eto; taeru pan gyhoeddir canlyniadau sy'n bell o fod yn "dorri trwedd" gwirioneddol fod ychwanegiad o ychydig filoedd at y gefnogaeth flaenorol yn fuddugoliaeth fawr. Efallai y bydd gan Blaid Cymru A.S. neu ddau eitha' sefydlog yn

San Steffan erbyn 1980 - neu 1984 - ond bryd hynny fe fydd hi'n rhy hwyr i neb areithio mwyach ynglŷn â hawlai'r genedl Gymreig yno, nac yn unman arall.

Yr unig wahaniaeth calonogol o bwys rhwng Cymru 1962 a Chymru 1972 yw bodolaeth a llwyddiant Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yn 1962, nid oedd dim yn digwydd yng Nghymru ond "haul a glaw a gwynt", a mwy o wynt a glaw nag o haul hefyd. Ond er tua pum mlynedd, prin yr aiff wythnos heibio pan na chlywir am weithred neu safiad o eiddo aelodau'r Gymdeithas neu genedlaetholwyr eraill. Nid y Gymdeithas yn unig biau'r clod am y bywiog-rwydd newydd sy'n nodweddu'r byw yng Gymreig cyfoes, ond gall hawlio rhan sylweddol hono. Ac o fis i fis ceir prawf ei bod hi, er na cholodd ddim o'i beiddgarwch cynhenid - cynyddu wnaeth hwnnw - yn datblydu'n fudiad trefnus a disgybledig a chanddo aelodau ac adrannau ym mhob cwr o'r wlad.

Y mae'n bosibl, foddy bynnag, mai gwahaniaeth arwynebol yw hwn eto, ac nad yw gweithgareddau brwd a hunan-aberthol pobl ifanc Cymdeithas yr Iaith yn ddim ond ymfiamychiad olaf cyn yr Angau. "Gall Cymdeithas yr Iaith ennill pob rownd a chael, serch hynny, pan genir y gloch olaf, ei bod hi wedi colli'r ornest," ebe John Jenkins mewn llythyr a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn Planet. A dywedodd Mr. R. H. Owen, Llanberis, rywbedd ddigon tebyg wrth awgrymu nad amhosib mai prif gyfraniad y Gymdeithas, ym marn haneswyr y dyfodol, fyddai peri i'r awdurdodau godi arwyddion dwyieithog i dywys ymwelwyr o Loegr i Barciau "Cenedlaethol" cwbl Seisnigedig.

Ni all y Gymdeithas wadu diliysrwydd y feiriadaeth uchod. Y mae ei thactegau'n arswyddus o annigonol, o ystyried dwysed yr argyfwng presennol. Er iddi orfodi'r awdurdodau i ddyrchafu statws y Gymraeg, i gyhoeddi furflenni ac i godi arwyddion ffyrdd dwyieithog, a hyd yn oed i ryddhau dwy sianel deledu at wasanaeth Cymru, y mae'n bosibl y caiff ei haelodau fyw i ddyfarnu mai diwerth fu hyn oll; mai ofer fu'r ymgyrchu a'r protestio, yr ymprydio, y gorymdeithio a'r carchariadau, gan i elynion Cymru, yn y cyfamser, lwyddo i ddifetha seiliau economaidd

a gwead gymdeithasol gysefin y gymuned genedlaethol Gymreig.

Yn 1962, credai sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith, yn ddiniwed ddigon, y buasai nifer o brotestiadau tor-cyfraith di-drais dros gyflawnder i'r Iaith yn ddigon i beri'r awdurdodau adweithio'n eithafol o ormesol yn eu herbyn, ac y buasai adwaith y werin Gymreig yn erbyn yr ormes honno'n eithafol o wlatgar. Am ddiniweidrwydd! Fodd bynnag, gellid ei esgusodi ar y pryd, a hyd at fis Ionawr 1970, hyd yn oed. Ond dylai helynt yr Uchel Lys fod wedi dad-rithio pob Padrig Pearse bach di-drais oñom, a'n hargyhoeddi fod yn rhaid wrth arf grymusach na phrotest i drechu imperialwyr cyfrwysaf a mwyaf profiadol y ddaear - pen-meistri'r ildio tactegol a'r ffug-gymrodedd - a'u gorfodi i lacio eu gafael ar ein gwlad. Credaf fod y rhan fwyaf o aelodau'r Gymdeithas wedi'u hargyhoeddi bellach mai cyfrwng protest i fyfyrwyr delfrydgars a gwrth-ryfelgar fydd hi, a dim llawer mwy, oni lwydda i lunio arf amgennach na gwrth-dystio di-draisiau.

Ni raid imi lenwi lawer o ofod wrth geisio profi nad gwrth-dystio treisiol yw'r "arf amgenach" hwn, gan i Emrys Llewelyn ddangos yn ddigon eglur yn ystod y misoedd diwethaf, mewn areithiau ac ysgrifau, ofered pob sôn am "Fyddin Gudd" a phynciau cyffelyb yn y cyfwng presennol. Un arf yn unig fedr achub yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sef gwladríaeth rydd a chanddi'r awdurdod a'r gallu a'r ewyllys i wneud hynny. Dylai perswadio eu cyd-wládwr o bosibilrwydd - ac o briodoldeb - sefydlu gwladríaeth o'r fath fod yn bennaf swydd aelodau Cymdeithas yr Iaith yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Hollol ddi-fudd fydd pob gweithgaredd a gweithred arall o'u heiddo oni roddir blaenoriaeth i'r gwaith hwn.

Mewn geiriau eraill, rhaid i'r Gymdeithas newid o fod yn fudiad sy'n bodloni ar bwys o ar yr awdurdodau, a'u procio, er mwyn eu cael i ddyrchafu ychydig ar statws yr Iaith bob hyn a hyn, i fod yn fudiad gwirioneddol chwyldroadol, a'i fryd ar greu yng Nghymru amodau cymdeithasol a sicrhau y bydd i'r Gymraeg fyw gyhyd ag unrhyw iaith yng Ngorllewin

Ewrop. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud y dylid dych-welyd at y dulliau yr ymwrthodwyd â hwy yn 1962. Nid wyf am inni anghofio gwersi a diarddel profiadau gwerthfawr y deng mlynedd diwethaf a gadael i obsesiynau seneddol y Blaid ein hualu eto. Yn hytrach, rhaid inni symud ymlaen, heb wadu'n gorffennol, i lunio athrawiaeth wleidyddol newydd wnaiff esgor ar bolisiau cymdeithasol a thactegau gwleidyddol a fydd yn peryglu einioes y Drefn Seisnig yng Nghymru. Wedyn, gellir dechrau gobeithio y gwireddir y dyhead oesol am Gymru Rydd a Chymru Gymraeg.

Dadlennodd protest yr Uchel Lys annigonolrwydd dulliau a thactegau Cymdeithas yr Iaith. Dadlennodd hefyd fod ei haelodau wedi eu rhannu'n ddwy garfan, sef y rhai fedrai fynd i brotestio'n "eithafol" bryd bynnag y deuai'r alwad, ar y naill law, a'r rhai y cyfyngid ar eu gweithgareddau gwrth-dystiol gan amgylchiadau teuluol neu alwedigaethol, ar y llaw arall. Y gred gyffredinol ymhlih cenedlaetholwyr o bob oed yw fod yr agoradur hwn yn anorfad ac yn anghyfanadwy. Tybir nad oes i'r mwyaf lloethol oñom ddihangfa rhag llyffetheiriau swydd a morgais ar ôl gadael ysgol a choleg; mai callio a sadio sydd raid wedi cefnu ar yr ugeiniau cynnar, a dysgu byw ar atgofion am gampau glaslenyndod; ymsuddo'n llywaeth i esmwythyd diflas ac undonnog y bywyd petit bourgeois, a gadael brwydro a'r aberthu i'r genhedlaeth iau. Yn y man, na phoener, daw tro'r genhedlaeth honno i ymado â gyrfar'r herwr; ei thynged anochel hithau fydd ymrestru yn rhengoedd y Cyfeillion truain, a cheisio lleddfu pangfeydd y gydwybod friw drwy roi arian yn y Gronfa a chymeryd rhan mewn gorymdeithiau a ffug-brotestiadau.

Mudiad di-ideoleg o bobl ddi-ideoleg yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Mudiad a lwyddodd i ddryllio ffydd ei aelodau yn yr ideolegau a lywodraethau eu bywydau cyn iddynt ymuno ag ef - e.e. materoliaeth fas Prydeindod a chendlaetholdeb petit bourgeois a flwyddiannus Plaid Cymru - heb allu cynnig dim boddhaol yn eu lle. Hyn sydd i gyfrif am ansicrwydd y Gymdeithas a diffyg hyder ei haelodau ar hyn o bryd. Ond nid arnynt hwy nac ar arweinwyr

presennol y mudiad y mae'r bai oherwydd fod seiliau athronyddol eu cenedlaetholdeb mor fregus. Y mae rheisymau hanesyddol am hyn.

CENEDLAETHOLDEB A SOSIALAETH

Trwy lwc - er nad dyna'r ymadrodd cywir - y mae athrawiaeth yn bod eisioes a allai, o'i chymhwysos ar gyfer anghenian mwy diriaethol Cymru, ddatrys problemau ideolegol ei chenedlaetholwyr.

Ei henw yw Sosialaeth.

Golyga'r gair Sosialaeth wahanol bethau i wahanol bobl. Derbyniaf i mai athrawiaeth ydyw 'sy'n cymhell fod holl adnoddau naturiol gwlad, ynghyd â'i holl ddulliau cynhyrchu, dosbarthu a chyfnewid, i ddod yn eiddo i werin bobl y wlad honno, i'w defnyddio er eu budd a'u llês hwy, ac nid er budd a llês unrhyw unigolyn, neu grŵp o unigolion, neu genedl arall.

Mabwysiadwyd yr athrawiaeth hon gan nifer cynyddol o fudiadau cenedlaethol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Cywirach dweud, efallai, iddynt gael eu gorfodi i'w mabwysiadu gan eu profiad o frwydro yn erbyn eu gormeswyr a chan amgylchiadau. Sylwodd Mr. Saunders Lewis yn y tridegau nad oedd annibyniaeth bur yn bosibl i Gymru nac i unrhyw wlad. Y mae'n llai posibl fyth heddiw. Creodd Imperialaeth un farchnad anferth yn y rhan honno o'r ddaear a lywodraethir ganddi. Mwyach, nid yw'n bosibl i unrhyw wlad gystadlu'n ddigymrodedd â phob gwlad arall. Nid yw'n bosibl ychwaith i lywodraeth godi mur o dollau amddiffynol o gylch bywyd economaidd ei thiriogaeth, er mwyn esgymuno tueddiadau a dylanwadau'r Farchnad ryngwladol. Rhaid i lywodraethau canol yr ugeinfed ganrif naill ai geisio ennill y telerau gorau allant y tu fewn i'r gyfundrefn imperialaidd, neu greu cyfundrefnau economaidd-wleidyddol wedi eu seilio ar egwyddorion holol wahanol - egwyddorion sosialaidd - ac ymuno yn yr ymgyrch i greu un gyfundrefn sosialaidd fydeang. Nid oes llwybr canol. Honnir gan rai o arweinwyr Plaid Cymru ei bod hi'n blaidd sosialaidd. Nid yw hynny'n wir. Nid yw Plaid Cymru a'i bryd ar greu Cymru sosialaidd. Ei nod,

yn hytrach, a barnu oddi wrth ei Pholisi Economaidd diweddaraf, yw ennill y cyfle i lunio ar gyfer Cymru gyfundrefn gyfalafol effeithiolach nag a gaed hyd yn hyn, a defnyddio'r elw a gynhyrchyd i godi safon byw'r Cymry ac i feithrin y diwylliant Cymreig.

Cyn y gallai weithredu'r polisi uchod, byddai'n rhaid i'r Blaid ennill cefnogaeth mwyafriwl pobl Cymru mewn etholiad cyffredinol, ac efallai mewn mwy nag un etholiad cyffredinol, yn ystod y deng mlynedd nesaf. Fel yr awgrymwyd eisioes, nid yw hynny'n debygol o ddigwydd. Faint bynnag o sylw a gaiff y Blaid rhwng etholiadau - faint bynnag o lwyddiant is-etholiad a gaiff, hyd yn oed - nid yw ei pholisiau'n ddigon gwahanol i rai'r pleidiau Seisnig - Llafur yn enwedig - i gydio yn nychymyg y bobl ar yr awr dyngedfennol. Nid yw ei hapel yn ddigon cyffrous a chwyldroadol i beri i'r Cymry fynnu pleidleisio drosti, yn nannedd propaganda pwerus pleidiau Lloegr a'r cyfryngau Seisnig.

Ond hyd yn oed pe llwyddai Plaid Cymru, gyda'i pholisiau presennol, i ennill dros ddeg ar hugain o seddau yn San Steffan; hyd yn oed pe caem ni lywodraeth ym Mharc Cathays a geisiai reoli a threfnu Cyfalafiaeth mewn "ffordd Gymreig", faint elwach fyddai Cymru? Faint sicrach fyddai dyfodol yr Iaith? Gorfodid llywodraeth "Cymru Rydd" i gydwethredu'n wasaidd â'r corfforaethau mawr rhyngwadol, ac i ufuddhau i dueddiadau'r Farchnad. Rhaid cyfaddef nad yw'r sefydiadau a'r tueddiadau hynny wedi mynogi nac awydd na gallu i achlesu cymdeithasau a diwylliannau lleiafrifol hyd yn hyn. I'r gwrthwyneb. Unedau economaidd i'w defnyddio yn y dull mwyaf effeithiol bosibl yw pobl i'r cyfalafwyr mawr - i'w cyflogi neu i'w taflu ar y clwt fel bo hwylusaf. Anachronyddiaeth ddiwerth sy'n llyffetheirio cyathrebu a hysbysebu rhyngwladol, ac yn peryglu undod y Farchnad, yw unrhyw iaith ond y Saesneg, yn eu tyb hwy. Elw, a mwy o elw yw eu hunig ddelfryd. Felly go anodd fyddai hi i lywodraeth Gymreig gadw'r Iaith rhag ei difodi tra'n cydwethredu'n economaidd ac yn wleidyddol gyda'r bonheddwyr hyn. Yn wir, y mae'n debyg mai dirywio'n gyflymach a wnai, megis y gwnaeth y Wyddeleg yn

ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, oblegid gall llywodraeth gyfalafol frodorol "ddatblygu" gwlaid - h.y. ecsbloetio ei hadnoddau dynol a naturiol - yn effeithiolach ac yn drylwyrach nag unrhyw lywodraeth estron.

Fe lesteirid ymdrochion llywodraeth "annibynol" i adfer y Gymraeg ar y cyd â threfnu a chynnal economi gyfalafol, gan dylanwadu mewnol yn ogystal â rhai allanol. Deuai gwrthwynebiad cryf i ymgais o'r fath o du rhai o'i deliaid ei hun. Lled ddibwys yw'r cecru rhwng mân-fwrdeisiaid Cymraeg a mân-fwrdeisiaid di-Gymraeg ynglŷn â swyddi a chyflwyniwr ar hyn o bryd, gan iddo gael ei gyfyngu i feysydd cymharol ddi-nod - e.e. rhengoedd isaf byd addysg, darlleu a'r gwasanaeth suful. Ond mewn gwladwriaeth "sofran", ymledai ac ymddywysai'r anghydffod. Cystadleuai'r ddwy garfan am lawer mwy o swyddi, am swyddi pwysicach, ac am gyflwyniwr mwy sylweddol. O ganlyniad, fe welid cynnydd cymesur mewn casineb a rhagfarn rhyngddynt. Ni ellid osgoi hynny mewn gwladwriaeth y dibynnai ei ffyniant ar uchelgais, hunanoldeb ac ariangarwch y lleiafrif ac anghydraddoldeb y mwyaf. Ac ni allai blaenoriaid y fath wladwriaeth, faint bynnag eu serch ar yr iaith, ganiatau i'r gwrthdaro hwn beryglu'r "Undod Cenedlaethol", na digio neu ddychryn buddsoddwyr tramor. Yn gynnar iawn yn ei hanes, felly, fe lunid rhyw gymroedd ieithyddol claeas a fyddai'n ddeddfryd o farwolaeth ar y Gymraeg.

Ond fel y dywedwyd eisioes, nid oes obaith i'r Blaid ennill ymreolaeth tra'r ymlyna wrth ei pholisiau economaidd a chymdeithasol cyfredol. Dim ond plaid genedlaethol a chanddi bolisiau sosialaidd diliys all obeithio ennill cefnogaeth mwyafif pobl Cymru, er gwaethaf holl bropaganda adweithiol y Wladwriaeth Seisnig a'r cyfryngau torfol a reolir ganddi. A dim ond llywodraeth Gymreig a chanddi'r un gefnogaeth a feddai'r nerth politicaidd i ddechrau datrys problemau economaidd aruthrol ein gwlaid, a'r hawl foesol i gyrchu tua'r nod o wneud y Gymraeg yn iaith gyntaf pob un o drigolion Cymru.

Llywodraeth sosialaidd yw'r unig fath ar llywodraeth Gymreig fedrai achub y Gymraeg: llyw-

odraeth â'i ffydd mewn cyd-weithrediad, nid cystadleuaeth; â'i bryd ar greu cymdeithas gyfiawn, nid ar gyfundrefnu a chadarnhau annhegwyd; â'i pharch at bobl, nid at ddulliau effeithiolach o ychwanegu at gyfoeth lleiafrif goludog. Dim ond llywodraeth o'r fath fedrai ymgymeryd â'r gwaith o adfer y Gymraeg i fod yn brif iaith Cymru heb gael ei chyhuiddo gan rai o'i dinasyddion o wneud hynny er mwyn achlesu un dosbarth a difreinio un arall. Dim ond llywodraeth sosialaidd Gymreig fedrai ddatgan yn ddiffuant mai ei nod ydoedd datblygu holl adnoddau materol a diwylliannol Cymru er budd a lles y genedl gyfan.

CENEDLAETHOLWYR GWRTH-SOSIALAIDD

Gwn fod nifer o genedlaetholwyr dylanwadol yn ffyrnid o wrth-sosialaidd. Gwladgarwyr ydynt sy'n uniaethu Sosialaeth â gwrth-Gymreigrwyd oblegid, yn bennaf, i'r Blaid Lafur honni, tan yn lled-ddiwedd, ei bod hi'n blaid sosialaidd. Y mae'n bryd claddu'r rhagfarn hon, bellach, gan y dylai fod yn 'amlwg i unrhyw un â chanddo'r diddordeb lleiaf mewn gwledyddiaeth nad yw Plaid Lafur Lloegr yn blaidd sosialaidd, ac na fu hi'n blaidd sosialaidd erioed. Do, fe gafwyd siarad ymfiamyhol am "ddymchwel Ceiri Cyfalafiaeth" ac ati oddi ar ei llwyfannau yn y gorffennol, yn enwedig pan fyddai'n Wrthblaidd Swydddogol Ei Mawrhydi (neu Ei Fawrhydi). Ond siarad oedd hynny, a dim mwy. Ceisio codi safon byw'r dosbarth gweithiol yn raddol bach - a'u safon byw hwy eu hunain dipyn cynt y tu fewn i'r cyfundrefn gyfalafol, dyna nod ei harweinwyr erioed. Ei swyddogaeth hanesyddol fu cymodi gweithwyr gwledydd Prydain â chyfalafiaeth a chadw gwerinoedd Cymru a'r Alban yn driw i Goron Lloegr a'r Iwriad Jac. Twyll bwriadol oedd galw ar weithwyr Cymru i gefnui ar "gulni a phlwyfoldeb" cenedlaetholdeb a chofleidio del frydau ehangach, gan fod y rhai a wnaï'r apêl eu hunain, fel arfer, yn genedlaetholwyr Prydeinig neu'n genedlaetholwyr Rwsiaidd. Enwau eraill, tlysach, ar genedlaetholdeb Prydeinig neu genedlaetholdeb

Rwsiaidd oedd sloganau fel "brawdgarwch rhyng-wladol" ac "undod gweithwyr pob gwlad". Petai gweithwyr Cymru wedi crafod y twyll, petai Sosial-aeth Cymru wedi bod yn Gymreigiaach, y mae'n debyg y buasai wedi bod yn fwy rhyngwladol, ac yn fwy sosialaidd hefyd.

Y mae'n bosibl y gwrthwnebir llawer o gynnwys y traethawd hwn gan genedlaetholwyr a ddeil mai "brwydr ysbyrdol" yw'r frwydr dros barhad y Gymraeg a'r genedl Gymreig, a bod ei gosod mewn cyd-destun "materol" - h.y. economaidd a chymdeithasol - yn halogiad. Rhaid parchu'r safbwyt hwn pan y'i harddelir gan bobl ifanc ddelfrydgar ac anhunanol sy'n adweithio'n chwyrn yn erbyn phillistaeth a hunanoldeb y gymdeithas fwrdeisaidd, yn enwedig pan font wedi dangos eu parodwydd i aberthu cysuron y gymdeithas honno er mwyn eu hegwyddorion. Serch hynny, rhaid datgan ei bod yn ddadl gyfeiliornus a pheryglus.

Y mae'n ddadl gyfeiliornus oblegid ei bod yn anwybyddu'r ffait Mai pwerau a thueddiadau gwleiddydol sy'n bygwth einios ein cenedl ac na ellir ei harbed heb greu'r amddiffynfeydd gwleidyddol ac economaidd priodol. Nid à gweddiau ac ymprydiau'n unig yr achubir Cymru.

Y mae'n ddadl beryglus oblegid ei bod yn fynegiant o ethos or-unigolyddol. Awgryma fod dyfodol Cymru'n dibynnau ar rym ewyllys a pharodwydd i aberthu criw bychan o ddedetholedigion, a'n bod ni'r cenedlaetholwyr - dewr a llwfr - yn fath ar elit ysbyrdol ymhlied haid o anwariaid sy'n ei chael hi'n amhosibl i amgyffred y gwerthoedd tragwyddol sydd mor gysegredig yn ein golwg ni.

Daeth yn bryd i ni'r cenedlaetholwyr Cymreig fwrw heibio'n ymholiadau cosmig a chydnabod beth ydym ni mewn gwirionedd, sef petite bourgeoisie acadamaidd; dosbarth breintiedig, yn faterol ac yn diwylliannol; pobl a chanddom gymwysterau a sicrhau inni waith a bywoliaeth - fodhaol, fel arfer - pa mor ddrwg bynnag y bydd hi ar gymdeithas yn gyffredinol.

Ar y llaw arall, y mae'r rhan fwyaf o'n cyd-wladwyr yn gorfod ennill eu tamaid drwy wneud gwaith

sydd naill ai'n fudr, neu'n fyr-hoedlog, neu'n beryglus, neu'n fwrn, neu'n talu cyflog pitw - neu maent ar y dôl. Nid oes gan y sawl nad yw'n gorfod dioddef yr anfanteision hyn - a llawer mwy - hawl i ddilorni'r rhai sy'n eu dioddef oblegid eu bod am eu dileu. Yr ydym ni'r cenedlaetholwyr yn ymwybodol iawn o dylanwad difrodol Imperialaeth ar fywyd diwylliannol Cymru, ond ychydig ohonom gafodd brofiad personol rhy enbyd o'i dylanwad ar fywyd economaidd ein gwlad. Gorfu i werin pobl Cymru dioddef canlyniadau economaidd a diwylliannol ei darostyngiad gwleidyddol.

Nodwedd amlycaf pob dosbarth mân-fwrdeisaidd yw ansefydlogrwydd. Ei rôle hanesyddol, yn wastad, yn anwadalu rhwng y Werin, y Fwrdeisiaeth, a rhyw ffordd-ganol gul a hunan-gyflawn o'i wneuthuriad ei hun. Ond ofer pob ymdrech o'i eiddo i lunio ideoleg barhaol, boed flaengar neu geidwadol, ar sail ei brofiad a'i uchelgais fel dosbarth; ei dynged anochel yw cael ei falurio a'i chwalu gan y gwrthdaro, rhwng y Werin a'r Fwrdeisiaeth, prif ddosbarthiadau'r cyfnod modern.

Anwadalu rhwng y Chwith a'r Dde a'i athrawiaethau ei hun fu hanes y Mudiad Cenedlaethol Cymreig o'i ddechreua, ac y mae'n hen bryd i ni, gynheiliaid presennol y mudiad hwnnw, sylweddoli mai difodiant buan ddaw i'w ran, ac i'n gwlatgarwch ninnau gydag ef, oni uniaethwn ein hunain yn llwyr â dyheadau ac amcanion y dosbarth gweithiol, sef yr unig ddosbarth Cymreig sy'n ddigon cryf i ryddhau'r Genedl gyfan o afael Imperialaeth wrth ei ymryddhau ei hun.

Yn rhyfedd iawn - ond efallai nad yw'r peth yn rhyfedd nac yn annisgwyl - clywyd cenedlaetholwyr a honnai eu bod hefyd yn sosialwyr yn dadlau'n grif yn erbyn ceisio sefydlu gwladwriaeth drwyndl sosialiaid ar dir Cymru, gan haeru na chaniateid datblygiad o'r fath gan y Pen Imperialwyr. Y mae'n wir, wrth gwrs, y gwnai llywodraethwyr Lloegr, yn wleidyddion ac yn farwniaid diwydiant, ynghyd â'u cyngreheriaid yn Ewrop a'r Unol Daleithiau, bopeth yn eu gallu i beri i arbwrau mor obeithiol fethu. Ond er mor nerthol ac hyderus yr ymddengys y rhain yn 1972, ni ddylem gymeryd ein brawychu ganddynt. Meidrol ydynt, ac

nid yw sylfeini eu grym a 'u hawdurdod heb eu mannau gwan.

Ni phery Imperialaeth am byth. Efallai y llwydda i dagu Cymru a nifer helaeth o genhedloedd bychain eraill cyn trengi. Efallai y llwydda i droi'r byd i gyd yn anghyfannedd. Ond y mae posibilrwydd hefyd y bydd i'r Ddynoliaeth, a chenedl y Cymry, hyd yn oed, oroesi Imperialaeth. Y mae posibilrwydd y bydd i gyfuniad o ymosodiadau allanol ac ymrwygiadau mewnol ddirwyn ei gyrfa warthus i ben, neu o leiaf ddwyn llawer o'i hysbail oddi arni, ynghynt o lawer nag y tybiodd neb.

CYMRU RYDD - CYMRU GYMRAEG - CYMRU SOSIALAIDD

A dyna unig obaith Cymru. Dylai'r Mudiad Cenedlaethol ei fwrrw ei hun ar fyrdwr, felly, i'r gwaith o danseilio a dryllio Imperialaeth yng Nghymru. O wneud hynny, byddai'n gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol bosibl i achub Cymru rhag difodiant ac, yr un pryd, yn cyfrannu'n anrhyydeddus tuag at sefydlu trefn ryngwladol decach a mwy gwâr nag a welwyd erioed o'r blaen.

Ond cyn y gellir gweithredu'n chwyldroadol, rhaid wrth athrawiaeth chwyldroadol. Pwy a lunia'r athrawiaeth chwyldroadol anhepgorol hon inni? Dyna gwestiwn llawer o genedlaetholwyr y trafodwyd y syniadau uchod â hwy. Yr unig ateb boddhaol, yr unig ateb democrataidd, yr unig ateb posibl yw cwestiwn arall: "Pwy ond ti a fi?" Dyma waith i genedlaetholwyr unigol, i gelloedd Cymdeithas yr Iaith, ac i ganghennau'r Blaid. Dylent oll fynd ati ar unwaith i astudio clasuron Sosialaeth - gweithiau Marx, Engels a Lenin ynghyd â rhai awduron cyfoes - i'w dadansoddi a'u trafod, ac i gymhwysyo ffrwyth eu hymchwil a'u trafodaethau at anghenion Cymru. Dylid hefyd geisio gwybodaeth am fudiadau a phobloedd ledled y byd sy'n wynebu problemau ac anhawsterau cyffelyb i'n heiddo ni, er mwyn canfod pa wersi sydd inni yn eu harbrosfion, eu methiannau a'u buddugol-iaethau hwy.

Yn Ewrop, yn yr Affrig, yn Asia, yn Nê'r

Amerig - ym mhob rhan o'r byd - ceir pobloedd a chenhedloedd na fyddant yn bod ar ddiwedd y ganrif hon. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain nesaf fe welir seiliau ac adeiladaeth eu cymdeithas yn cael eu difetha a'u haelodau'n cael eu chwalu ymhlih cenhedloedd eraill. Daw eu hanes i ben ac ni chlywir mwyach seiniau eu hieithoedd, er i wlatgarwyr ymserchu'n ddwfn yn yr ieithoedd hynny ac yn y traddodiadau a gostrelid ynddynt, ac aberthu hawdd-fyd, rhyddid ac einioes er eu mwyn.

Ceir hefyd yn y byd genhedloedd a phobloedd eraill y mae eu bodolaeth hwythau'n ymddangos yn beth hynod frau yn awr, ond a fydd, ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, nid yn unig yn bodoli, ond yn ffynnu. Dyma'r pobloedd a fydd wedi canfod mewn pryd mai dwy ochr i'r un geiniog yw gorthrwm diwylliannol a gorthrwm economaidd, ac na ellir dileu'r naill heb ddileu'r llall. Dyma'r pobloedd sydd wedi eu hargyhoeddi eisiau nad digon, yn y byd modern, yw i gymuned ewyllysio byw - rhaid iddi hefyd ddeall natur y deddfau economaidd sy'n rheoli cymdeithas a'i datblygiad, a dysgu gwneud defnydd effeithiol o'r ddealltwriaeth honno.

Dyma'r pobloedd a fydd yn goroesi Imperialaeth. A fydd Cymru yn eu plith?

Dibynna hynny, i raddau pell iawn, ar allu asgell brotestiol ac asgell wleidyddol y Mudiad Cenedlaethol, sef Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Phlaid Cymru, i ddiosg llawer o'u rhagfarnau a'u rhwystredigaethau, a gosod Cymreigrwydd mewn cyd-destun gwirioneddol chwyldroadol.

Cymru Rydd.

Cymru Gymraeg.

Cymru Sosialaidd.

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, 24 Ffordd y Môr, Aberystwyth (ffôn 2937), ac argraffwyd gan Y Lolfa, Talybont.



**Cymdeithas
yr Iaith Gymraeg**